**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Michelle Donelan AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol,
Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Llywodraeth EF

22 Tachwedd 2022

Bil y Cyfryngau sydd ar y gweill gan y Llywodraeth

Annwyl Michelle,

Rydym yn ysgrifennu i gyfleu pryderon a godwyd gyda ni ynghylch oedi posibl wrth gyflwyno Bil y Cyfryngau Llywodraeth y DU. Fel y gwyddoch, mae consensws clir ymhlith rhanddeiliaid ynghylch yr angen i ddiweddaru'r setliad darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Er bod darlledu yn fater a gadwyd yn ôl, rydym yn rhannu'r pryderon hyn ac yn credu bod sawl rheswm pam fod angen dybryd am Fil y Cyfryngau.

Hoffem ddechrau drwy ddatgan ein bod yn cefnogi llawer o'r darpariaethau a nodir yn y Papur Gwyn ar Ddarlledu. Cynigion yw'r rhain a luniwyd o ganlyniad i raglen waith Ofcom ar gyfer Sgrin Fach: Dadl Fawr. Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ym mis Rhagfyr 2021 yn cefnogi llawer o ganfyddiadau'r gwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys y dylai Llywodraeth y DU ddatblygu cynigion polisi a deddfwriaethol i weithredu argymhellion Ofcom, a sicrhau bod y gweinyddiaethau datganoledig yn chwarae rhan lawn yn y gwaith hwn. Rydym yn teimlo bod angen mynd i'r afael â nifer o faterion drwy ddeddfwriaeth cyn gynted â phosibl, gan gynnwys:

- Mae **amlygrwydd ac argaeledd darlledu gwasanaeth cyhoeddus** ar setiau teledu clyfar a dyfeisiau ar-alw yn hanfodol, yn enwedig yng nghyd-destun Cymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod deddfwriaeth yn sicrhau bod yn rhaid i bob teledu clyfar a dyfais ar-alw ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Heb hyn, rydym yn pryderu, y tu hwnt i ddarlledu llinol, y gallai cynulleidfaoedd yng Nghymru ei chael hi'n anoddach cael mynediad at sianeli a chynnwys o Gymru. Yng nghyd-destun darlledu yn y Gymraeg, gallai hyn lesteirio cynnydd yn erbyn y targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- **Diweddaru'r rhestr o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n gymwys i ddarlledu 'digwyddiadau rhestredig' chwaraeon,** sef y 'trysorau' yn y maes hwn. Fel ag y mae, nid yw S4C ar y rhestr o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael darlledu digwyddiadau o'r fath.

- **Diwygio'r cylch gwaith statudol ar gyfer darlledu cyhoeddus** i gynnwys darpariaethau sy'n pwysleisio pwysigrwydd darlledu mewn ieithoedd cenedlaethol a lleiafrifol fel y Gymraeg, fel yn achos S4C.

- **Diweddaru cylch gorchwyl darlledu cyhoeddus S4C** i sicrhau y gall ddarparu gwasanaethau darlledu a digidol ledled y DU. Mae hyn yn hollbwysig o ystyried bod yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi rhoi £7.5m ychwanegol y flwyddyn i S4C i gefnogi ei datblygiad digidol, sydd, fel y dywedodd eich rhagflaenydd, yn angenrheidiol ar gyfer parhad y gwasanaeth yn nhirwedd y cyfryngau modern.

At hynny, rydym wedi cael gwybod bod amseriad eich Bil yn arbennig o bwysig i ddyfodol ITV Cymru Wales. Dywedodd wrthym ei fod bellach ymhell i mewn i'r broses statudol ar gyfer adolygu ac adnewyddu trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus – proses lle mae dealltwriaeth glir o ymrwymiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol yn hanfodol bwysig. Rydym yn deall mai'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i adnewyddu trwydded, ac felly parhau i fod yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yw mis Ebrill 2023. O ystyried pa mor ddibynnol yw Cymru ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, rydym yn pryderu bod un o'n prif gyfranwyr yn y sector hwn mewn sefyllfa o'r fath – yn enwedig gan fod ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi llawer o swyddi mewn sector diwydiannau creadigol sy'n tyfu ac yn ffynnu yng Nghymru.

Yn olaf, byddem yn croesawu cadarnhad o adroddiadau newyddion y bydd cynlluniau blaenorol i breifateiddio Channel Four yn cael eu rhoi i'r neilltu. Fe wnaethom ni ysgrifennu at eich rhagflaenydd yn amlinellu ein pryderon sylweddol mewn perthynas â'r cynnig hwnnw, a byddem yn gryf o blaid cadw perchnogaeth gyhoeddus ar y sianel.

Hoffem hefyd estyn y gwahoddiadau blaenorol y gwnaethom ni eu hanfon at eich rhagflaenydd, i ddod i un o gyfarfodydd ein Pwyllgor i drafod dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'ch swyddogion gysylltu â swyddogion y Pwyllgor i benderfynu ar ddyddiad priodol yn y dyfodol agos.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.